Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Y Gwir Anrhydeddus Amber Rudd AS
Yr Ysgrifennydd Cartref
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

12 Ionawr 2018

Annwyl Amber Rudd AS

**PARTH: Arolygiad Cyfreithlondeb PEEL AHEMGTA 2017**

Mae'n dda gennyf weld y gwelliannau sylweddol a wnaed gan Heddlu Dyfed-Powys yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cael eu cydnabod yn yr adroddiad archwiliad diweddar ar gyfreithlondeb. Mae'r ymdrech barhaus i wella perfformiad a mynd i'r afael â meysydd ar gyfer gwella y tynnwyd sylw atynt gan AHEMGTA mewn blynyddoedd diweddar wedi arwain at sefyllfa llawer gwell. Rwy'n awyddus i sicrhau bod y cynnydd hwn yn cael ei gynnal, ac rwy'n hyderus yng ngallu tîm arweiniol yr Heddlu i gyflenwi fy nyhead i'r Heddlu gael ei gydnabod fel un o'r heddluoedd sy'n perfformio orau yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r heddlu dal yn gwneud gwelliannau i'w arweinyddiaeth a'i ddatblygiad personol, ar ôl lansio ei Strategaeth Arweinyddiaeth a Lles ar gyfer 2017-2021 yn ddiweddar. Mae sgiliau cyfathrebu'r gweithlu'n cael eu datblygu drwy fentrau megis rhaglen arweinyddiaeth drawsnewidiol a chwrs Cymraeg dwys lefel uwch. Rwy'n gobeithio y bydd y rhain yn cael eu cynnig i fwy o swyddogion a staff yn ystod y flwyddyn i ddod.

Gan gydnabod yr angen ar gyfer sicrhau bod craffu allanol yn cael ei gyflawni gan wir gynrychiolaeth o'n cymunedau, mae'r Heddlu wrthi'n gweithio ar ymgyrch recriwtio newydd er mwyn denu aelodau newydd i'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol (GYA). Hefyd, mae fy swyddfa wedi datblygu cynlluniau yn ddiweddar i ehangu a datblygu fy Mhanel Sicrhau Ansawdd (SA) i gynnwys mwy o'n preswylwyr mewn gweithgareddau craffu lleol. Rhan o'r datblygiad hwn yw trosglwyddo craffu ar y broses Stopio a Chwilio yn ddiweddar o'r GYA i'r Panel SA.

Yn ddiweddar, cynhaliodd fy Mhanel SA hap sampl o achosion cwyn i adolygu amseroldeb datrys a diweddariadau a roddir i'r achwynyddion. Bydd craffu yn y dyfodol yn canolbwyntio ar gysondeb ac ansawdd diweddariadau i bob parti cysylltiedig. Fe'm sicrhawyd bod gan yr heddlu gynllun gweithredu cadarn mewn grym i ddod â nifer o achosion cwyn cyfreithlondeb sy'n effeithio'n andwyol ar eu perfformiad o ran amseroldeb i ben. Byddaf yn goruchwylio eu cynnydd drwy fy nghyfarfodydd perfformiad cyhoeddus chwarterol gyda'r Prif Gwnstabl a thrwy gefnogaeth barhaus fy Mhanel SA.

O fewn adolygiad diweddar o gofnodion stopio a chwilio a gynhaliwyd gan fy Mhanel SA, roedd hi'n amlwg nad yw sail resymol yn cael ei chofnodi'n ddigonol o hyd. Rwy'n bwriadu mynd i'r afael â hyn gyda'r Prif Gwnstabl yn syth, a byddaf yn gofyn i'r Panel gynnal adolygiad dilynol maes o law. Ar nodyn cadarnhaol, mae fy nhîm wedi gweld recriwtiaid newydd yn derbyn hyfforddiant ardderchog ar y defnydd o'r broses stopio a chwilio, ac mae'r ffordd yr oedd yr hyfforddeion yn cael eu cynorthwyo i ddeall manteision, anfanteision, a meysydd posibl ar gyfer canfyddiad cyhoeddus gwrthwynebus ar y

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

defnydd o bwerau, wedi creu argraff fawr arnynt. Byddaf yn gwylio'r ffordd y mae hyn yn trosglwyddo i'r rheng flaen wrth i'r recriwtiaid gael eu lleoli â diddordeb.

Mae'r Heddlu wedi cydnabod yr angen i gydlynu a chyfleu ei bolisïau yn well, gan sicrhau eu bod nhw'n addas ar gyfer y diben ac yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Byddaf yn edrych tuag at ein Grŵp Llywodraethu Corfforaethol i sicrhau bod y gydnabyddiaeth hon yn cael ei throi'n gamau gweithredu.

Dymunaf orffen drwy nodi agwedd gadarnhaol Heddlu Dyfed-Powys tuag at y Datganiad Rheoli'r Heddlu newydd sydd i'w gyflwyno ym mis Mai 2018, ac edrychaf ymlaen yn awchus at ei gwblhau gan y bydd hyn yn siŵr o fy ngalluogi i ac AHEMGTA i symud ymlaen ag adolygiadau mwy targedig o feysydd allweddol o berfformiad yr Heddlu.

Cyhoeddir copi o'r ymateb hwn ar fy ngwefan.

Yr eiddoch yn gywir,

**Dafydd Llywelyn**
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

copi at: AEM Wendy Williams, Arolygydd Cwnstabliaeth EM, Rhanbarth Cymru a'r Gorllewin
Y Prif Gwnstabl Mark Collins, Heddlu Dyfed-Powys

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Rt Hon Amber Rudd MP
Home Secretary
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

12 January 2018

Dear Amber Rudd MP

**RE: HMICFRS PEEL Legitimacy Inspection 2017**

I am pleased to see the significant improvements made by Dyfed-Powys Police in the past year recognised in the latest inspection report on legitimacy. The continued drive to improve performance and address areas for improvement highlighted by HMICFRS over previous years has resulted in a much improved position. I am eager to ensure this progress is maintained and I am confident in the Force's leadership team's ability to deliver on my aspiration for the Force to be recognised as one of the best performing in England and Wales.

The Force continues to make improvements to its leadership and personal development, having recently launched its Leadership and Wellbeing Strategy for 2017-2021. The workforce's communication skills are being developed through initiatives such as a new transformational leadership programme and a recent intensive Welsh language improver's course, both of which I hope will be offered to more officers and staff in the coming year.

In recognition of the need to ensure external scrutiny is carried out by a true representation of our communities, the Force is currently working on a new recruitment campaign to attract new members to the Independent Advisory Group (IAG). My office has also recently developed plans to expand and develop my Quality Assurance (QA) Panel to involve more of our residents in local scrutiny activities. Part of this development has been the recent transfer of Stop and Search scrutiny to the QA Panel from the IAG.

My QA Panel has recently conducted a dip-sample of complaint cases to review the timeliness of resolution and updates provided to the complainants. Future scrutiny activity will focus on the regularity and quality of updates to all involved parties. I have been assured that the Force has a robust action plan in place to finalise a number of legacy complaint cases which are adversely affecting their timeliness performance. I will maintain oversight of their progress through my quarterly public performance meetings with the Chief Constable and through my QA Panel's continued support.

Within a recent review of stop and search records conducted by my QA Panel, it was evident that reasonable grounds continue to be insufficiently recorded. I intend on addressing this immediately with the Chief Constable and will be asking the Panel to conduct a follow-up review within due course. On a positive note, my team have witnessed excellent training to new recruits on the use of stop and search and were impressed with how the trainees were facilitated to understand the benefits,

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

drawbacks and potential areas for adverse public perception on the use of the powers. I will watch with interest how this translates to the frontline as the recruits are deployed.

The Force have recognised the need to better coordinate and communicate their policies, ensuring they are fit for purpose and regularly reviewed and updated. I will be looking to our joint Corporate Governance Group to ensure this recognition is translated into action.

I wish to close by noting Dyfed-Powys Police's positive approach to the new Force Management Statement due to be submitted in May 2018 and look forward with anticipation to its completion, as this will undoubtedly enable both myself and HMICFRS to progress with more tailored and targeted reviews of key areas of the Force's performance.

A copy of this response is published on my website.

Yours sincerely,

**Dafydd Llywelyn**
**Police and Crime Commissioner**

cc: HMI Wendy Williams, HM Inspector of Constabulary, Wales and Western Region
Chief Constable Mark Collins, Dyfed-Powys Police